# Meini Prawf Asesu'r Arholiad Ysgrifenedig 2017/18

| Tasg 2: Sgiliau Iaith Cymwysedig – Trawsieithu neu Grynhoi/Addasu | | |
|---|---|---|
| **Cywair/arddull (25 marc)** – dangos dealltwriaeth o nodweddion cywair iaith priodol i'r dasg | | |
| Y cywair yn hollol briodol i'r dasg ac yn hollol gydnaws â lefel gallu'r darllenydd heb enghreifftiau o gywair anaddas. *(Rhagorol iawn)* | 21.5–25 | |
| Y cywair yn briodol i'r dasg ac yn gydnaws â lefel gallu'r darllenydd. Prin iawn yw'r enghreifftiau o gywair anaddas. *(Rhagorol)* | 17.5–21 | |
| Y cywair yn briodol gan amlaf, er bod ambell enghraifft o gywair anaddas. (*Da*) | 15–17 | |
| Y cywair yn briodol ar y cyfan, er bod enghreifftiau o gywair anaddas. (*Digonol*) | 12.5–14.5 | |
| Y cywair yn amhriodol ar gyfer y dasg, er y gall fod enghraifft neu ddwy o gywair addas. (*Methu*) | 7.5–12 | |
| Y cywair yn amhriodol ar gyfer y dasg. | 0–7 | |
| **Cywirdeb a defnyddio arfau iaith cyfrifiadurol (25 marc)** – ymwybyddiaeth o gywirdeb iaith a defnydd o arfau iaith cyfrifiadurol | | |
| Ymwybyddiaeth gadarn iawn o gywirdeb iaith. Mae iaith y darn trawsieithu/addasu yn gywir iawn gydag un neu ddau lithriad yn unig. Gwaith sy'n dangos gafael ragorol ar arfau iaith cyfrifiadurol. | 21.5–25 | |
| Ymwybyddiaeth gadarn o gywirdeb iaith. Mae iaith y darn trawsieithu/addasu yn gywir iawn. Ychydig iawn o wallau, ond nid ydynt yn rhai sylfaenol. Gwaith sy'n dangos gafael dda iawn ar arfau iaith cyfrifiadurol. | 17.5–21 | |
| Ymwybyddiaeth dda o gywirdeb iaith. Mae iaith y darn trawsieithu/addasu yn gywir iawn ar y cyfan. Rhai gwallau ond ychydig iawn sy'n rhai sylfaenol. Gwaith sy'n dangos gallu i ymdrin ag arfau iaith cyfrifiadurol. | 15–17 | |
| Ymwybyddiaeth foddhaol o gywirdeb iaith. Mae iaith y darn trawsieithu/addasu yn gywir ar y cyfan. Ceir rhai gwallau sylfaenol. Gwaith sy'n dangos gallu i ymdrin ag arfau iaith cyfrifiadurol er bod rhai eithriadau. | 12.5–14.5 | |
| Diffyg ymwybyddiaeth o gywirdeb iaith. Mae iaith y darn trawsieithu/addasu yn wallus gyda nifer o'r gwallau'n rhai sylfaenol. Gwaith sy'n dangos ansicrwydd a gallu cyfyngedig i ymdrin ag arfau iaith cyfrifiadurol. | 7.5–12 | |
| Nid oes tystiolaeth o ymwybyddiaeth o gywirdeb iaith. Mae iaith y darn trawsieithu/addasu yn wallus dros ben. Nid oes tystiolaeth o allu i ymdrin ag arfau iaith cyfrifiadurol. | 0–7 | |
| **Cystrawen a geirfa (25 marc)** – cystrawennau amrywiol a chlir heb fod dylanwad y Saesneg arnynt, geirfa a thermau amrywiol a phwrpasol | | |
| Yn defnyddio cyfoeth o gystrawennau clir heb ymyrraeth o du'r Saesneg. Geirfa a thermau eang, cyfoethog a chwbl addas. | 21.5–25 | |
| Yn defnyddio cystrawennau amrywiol a chlir. Prin iawn yw'r ymyrraeth o du'r Saesneg. Geirfa a thermau eang ac addas iawn. | 17.5–21 | |
| Yn defnyddio cystrawennau amrywiol a chlir gan amlaf. Prin yw'r ymyrraeth o du'r Saesneg. Geirfa a thermau eang ac addas. | 15–17 | |
| Yn gwneud defnydd cywir gan amlaf o nifer cyfyngedig o gystrawennau. Ychydig o aneglurder yn y mynegiant. Ymyrraeth o du'r Saesneg o bryd i'w gilydd. Geirfa a thermau digonol ac addas gan amlaf. | 12.5–14.5 | |
| Yn defnyddio nifer bychan o gystrawennau elfennol, gyda'r rheini'n wallus neu'n aneglur fel rheol. Yn dangos ymyrraeth gyson o du'r Saesneg. Geirfa a thermau cyfyngedig iawn. | 7.5–12 | |
| Diffyg gafael lwyr ar gystrawennau, geirfa a thermau'r Gymraeg. | 0–7 | |
| **Egwyddorion trawsieithu/addasu deunyddiau gan gadw at ofynion y dasg (25 marc)** – cyflwynir prif bwyntiau'r darn gwreiddiol yn gryno ac yn glir, cedwir at ei ystyr a throsir ystyr idiomau ac ati i gyfleu naws a bwriad y gwreiddiol, cedwir at nifer y geiriau a nodir. | | |
| Dangosir ymwybyddiaeth ragorol o egwyddorion trawsieithu/addasu deunyddiau. Mae'r darn yn llwyddo i grynhoi'r holl wybodaeth yn y darn gwreiddiol yn rhagorol gan gadw at nifer y geiriau. | 21.5–25 | |
| Dangosir ymwybyddiaeth dda iawn o egwyddorion trawsieithu/addasu deunyddiau. Mae'r darn yn llwyddo i grynhoi'r holl wybodaeth yn y darn gwreiddiol yn dda iawn gan gadw at nifer y geiriau. | 17.5–21 | |
| Dangosir ymwybyddiaeth dda o egwyddorion trawsieithu/addasu deunyddiau. Mae'r darn yn llwyddo i grynhoi'r wybodaeth yn y darn gwreiddiol yn dda. Gall y darn fod hyd at 10 gair yn rhy hir/rhy fyr. | 15–17 | |
| Dangosir ymwybyddiaeth foddhaol o egwyddorion trawsieithu/addasu deunyddiau. Mae'r darn yn llwyddo i grynhoi'r wybodaeth yn y darn gwreiddiol yn foddhaol ar y cyfan. Gall y darn fod rhwng 10 a 15 gair yn rhy hir/rhy fyr. | 12.5–14.5 | |
| Dangosir ymwybyddiaeth annigonol o egwyddorion trawsieithu/addasu deunyddiau. Ychydig iawn o bwyntiau perthnasol o'r wybodaeth yn y darn gwreiddiol sy'n cael eu crynhoi ac mae'r darn dros 15 gair yn rhy hir/rhy fyr. | 7.5–12 | |
| Nid oes tystiolaeth fod ymwybyddiaeth o egwyddorion trawsieithu/addasu deunyddiau yn y darn. Nid oes pwyntiau perthnasol o'r wybodaeth yn y darn gwreiddiol yn cael eu crynhoi. | 0–7 | |
| | **Cyfanswm** | |

Coleg Cymraeg Cenedlaethol CYMRAEG Llywodraeth Cymru Welsh Government

| **Tasg 3: Ysgrifennu Rhydd** | | |
|---|---|---|
| Cywair/arddull (25 marc) – dangos dealltwriaeth o nodweddion cywair iaith priodol i'r dasg | | |
| Y cywair yn hollol briodol i'r dasg ac yn gydnaws â lefel gallu'r darllenydd heb enghreifftiau o gywair anaddas. (*Rhagorol iawn*) | 21.5–25 | |
| Y cywair yn briodol i'r dasg ac yn gydnaws â lefel gallu'r darllenydd. Prin iawn yw'r enghreifftiau o gywair anaddas. (*Rhagorol*) | 17.5–21 | |
| Y cywair yn briodol gan amlaf, er bod ambell enghraifft o gywair anaddas. (*Da*) | 15–17 | |
| Y cywair yn briodol ar y cyfan, er bod enghreifftiau o gywair anaddas. (*Digonol*) | 12.5–14.5 | |
| Y cywair yn amhriodol ar gyfer y dasg, er y gall fod enghraifft neu ddwy o gywair addas. (*Methu*) | 7.5–12 | |
| Y cywair yn amhriodol ar gyfer y dasg. | 0–7 | |
| Cywirdeb a defnyddio arfau iaith cyfrifiadurol (25 marc) – ymwybyddiaeth o gywirdeb iaith a defnydd o arfau iaith cyfrifiadurol | | |
| Ymwybyddiaeth gadarn iawn o gywirdeb iaith. Mae iaith y darn trawsieithu/addasu yn gywir iawn gydag un neu ddau lithriad yn unig. Gwaith sy'n dangos gafael ragorol ar arfau iaith cyfrifiadurol. | 21.5–25 | |
| Ymwybyddiaeth gadarn o gywirdeb iaith. Mae iaith y darn ysgrifennu rhydd yn gywir iawn. Ychydig iawn o wallau, ond nid ydynt yn rhai sylfaenol. Gwaith sy'n dangos gafael dda iawn ar arfau iaith cyfrifiadurol. | 17.5–21 | |
| Ymwybyddiaeth dda o gywirdeb iaith. Mae iaith y darn ysgrifennu rhydd yn gywir iawn ar y cyfan. Rhai gwallau ond ychydig iawn sy'n rhai sylfaenol. Gwaith sy'n dangos gallu i ymdrin ag arfau iaith cyfrifiadurol. | 15–17 | |
| Ymwybyddiaeth foddhaol o gywirdeb iaith. Mae iaith y darn ysgrifennu rhydd yn gywir ar y cyfan. Ceir rhai gwallau sylfaenol. Gwaith sy'n dangos gallu i ymdrin ag arfau iaith cyfrifiadurol er bod rhai eithriadau. | 12.5–14.5 | |
| Diffyg ymwybyddiaeth o gywirdeb iaith. Mae iaith y darn ysgrifennu rhydd yn wallus gyda nifer o'r gwallau'n rhai sylfaenol. Gwaith sy'n dangos ansicrwydd a gallu cyfyngedig i ymdrin ag arfau iaith cyfrifiadurol. | 7.5–12 | |
| Nid oes tystiolaeth o ymwybyddiaeth o gywirdeb iaith. Mae iaith y darn ysgrifennu rhydd yn wallus dros ben. Nid oes tystiolaeth o allu i ymdrin ag arfau iaith cyfrifiadurol. | 0–7 | |
| Cystrawen a geirfa (25 marc) – cystrawennau amrywiol a chlir heb fod dylanwad y Saesneg arnynt, geirfa a thermau amrywiol a phwrpasol | | |
| Yn defnyddio cyfoeth o gystrawennau clir heb ymyrraeth o du'r Saesneg. Geirfa a thermau eang, cyfoethog a chwbl addas. | 21.5–25 | |
| Yn defnyddio cystrawennau amrywiol a chlir. Prin iawn yw'r ymyrraeth o du'r Saesneg. Geirfa a thermau eang ac addas iawn. | 17.5–21 | |
| Yn defnyddio cystrawennau amrywiol a chlir gan amlaf. Prin yw'r ymyrraeth o du'r Saesneg. Geirfa a thermau eang ac addas. | 15–17 | |
| Yn gwneud defnydd cywir gan amlaf o nifer cyfyngedig o gystrawennau. Ychydig o aneglurder yn y mynegiant. Ymyrraeth o du'r Saesneg o bryd i'w gilydd. Geirfa a thermau digonol ac addas gan amlaf. | 12.5–14.5 | |
| Yn defnyddio nifer bychan o gystrawennau elfennol, gyda'r rheini'n wallus neu'n aneglur fel rheol. Yn dangos ymyrraeth gyson o du'r Saesneg. Geirfa a thermau cyfyngedig iawn. | 7.5–12 | |
| Diffyg gafael lwyr ar gystrawennau, geirfa a thermau'r Gymraeg. | 0–7 | |
| Cynnwys (25 marc) – byddwch yn ennill marciau am gynnwys sy'n ateb gofynion y dasg yn drylwyr ac sydd wedi ei strwythuro'n effeithiol ac yn glir gan gadw at nifer y geiriau a nodir. | | |
| Darn hynod ddiddorol a gafaelgar drwyddo draw sy'n ateb gofynion y dasg yn rhagorol gan gynnwys nifer y geiriau. Strwythur rhagorol. | 21.5–25 | |
| Darn diddorol a gafaelgar drwyddo draw sy'n ateb gofynion y dasg yn dda iawn gan gynnwys nifer y geiriau. Strwythur da iawn. | 17.5–21 | |
| Darn diddorol sy'n ateb gofynion y dasg. Strwythur da. Gall y darn fod fymryn yn rhy hir/rhy fyr. | 15–17 | |
| Darn boddhaol sy'n ateb y rhan fwyaf o ofynion y dasg. Strwythur addas. Gall y darn fod yn rhy hir/rhy fyr. | 12.5–14.5 | |
| Darn cymysglyd nad yw'n llwyddo i ateb gofynion y dasg. Strwythur anaddas. Mae'r darn yn llawer rhy hir/rhy fyr. | 7.5–12 | |
| Darn cwbl anfoddhaol ei gynnwys, ei strwythur a'i hyd. | 0–7 | |
| | **Cyfanswm** | |